

Sut galla i ddechrau cymryd rhan?

Os carech chi chwarae rhan neu ddysgu rhagor, cysylltwch â ni. Ffôn: 01792 457299 / involve@scvs.org.uk




Swansea City of Sanctuary
Abertawe Dinas Noddfa

CROESO CYNHESACH I ABERTAW

Mae'r Prosiect 'Croeso Cynhesach i Abertawe' yn helpu i groesawu ceiswyr lloches a ffoaduriaid i Abertawe drwy eu cynorthwyo i leddfu eu hunigrwydd, eu hannog i chwarae rhan weithgar yn y gymuned o'u cwmpas a dod yn rhan ohoni, a hybu eu llesiant.

Cyfleoedd i Wirfoddoli



ARIENNIR GAN Y
LOTERI GENEDLAETHOL
NATIONAL
LOTTERY FUNDED

Elusen Gofrestredig Rhif : 1063242

Allech chi estyn croeso cynnes i Abertawe i rywun?

Os felly, beth am fod yn fentor gwirfoddol?

Mae mentoriaid yn darparu gwasanaeth hanfodol bwysig ar adeg ddyrys ym mywydau pobl. Mae llawer o'r ceiswyr lloches a'r ffoaduriaid sy'n cyrraedd Abertawe'n anghyfarwydd â'r lle a sut mae pethau'n gweithio, heb wybod sut i gyrchu gwasanaethau ac yn bwysicach fyth, sut i gysylltu â phobl eraill. Mae gwybod bod wyneb cyfeillgar ar gael i'ch croesawu'n gallu gwneud byd o wahaniaeth.

Pwy sy'n gallu bod yn fentor?

Gall unrhywun fod yn fentor. Rydym yn croesawu ceisiadau yn arbennig oddi wrth bobl sydd â phrofiad o geisio noddfa neu sy'n byw mewn ardaloedd sy'n agos i geiswyr noddfa.

Rydym yn disgwyl y bydd gennych chi nifer o sgiliau a nodweddion, a amlinellir yn y disgrifiad o'r rôl.

Faint yw'r gost?

Dim byd! Mae'r prosiect yn agored yn ddi-dâl i wirfoddolwyr. Fe dalwn ni hefyd am eich teithiau bws a threuliau eraill tra'ch bod chi'n gwirfoddoli gyda ni.

Beth mae mentor yn ei wneud?

Gwirfoddolwr(aig) hyfforddedig yw mentor, sy'n cynorthwyo pobl i gael mynediad at y pethau y maen nhw am eu cael a'r pethau y mae angen iddyn nhw eu gwneud.

Er enghraifft, gallan nhw:

- Ddangos ac egluro llwybrau bysus.
- Dangos lleoedd fforddiadwy i siopa.
- Cynnig gwybodaeth am wasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol.
- Cynorthwyo pobl i gael hyd i weithgareddau cymdeithasol a hamdden.
- Cynorthwyo pobl i gael hyd i gyfleoedd i hyfforddi a gwirfoddoli.

Nod y broses mentora yw cynorthwyo unigolion i fod mor annibynnol â phosibl.

Beth yw cynnwys y prosiect ?

Mae 3 cham yn y broses :

- Y cyfnod cynefino a hyfforddi cychwynnol: Dyma pryd y byddwn ni'n dysgu amdanoch chi ac yn disgrifio'r cynllun ichi.
- Sesiynau rheolaidd yn helpu unigolyn: fel rheol bydd rhwng 2 ac 8 o sesiynau. Maen nhw'n arfer para am 2-4 awr yr un, yn ôl anghenion yr unigolyn.
- Sesiwn werthuso: i weld pa mor ddefnyddiol mae'r broses wedi bod, a sut gallwn ni ei gwella.

Rydym yn cynnig ichi'r cyfle i fentora mor aml ag y mynnwch chi.